Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.10.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Diweddariad canllawiau Pàs COVID-19

O ddydd Llun 11 Hydref 2021, bydd angen i bob oedolyn ddangos Pàs COVID GIG, neu brawf COVID-19 negyddol, i fynd i mewn i glybiau nos a lleoliadau tebyg, neu fynd i ddigwyddiadau mwy.

Bellach, mae canllawiau manwl wedi'u cyhoeddi parthed i bwy mae'r rheoliad yn berthnasol, a sut y dylid ei weithredu:

https://llyw.cymru/pas-covid-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-digwyddiadau-html

- DYLAI POB BUSNES SY’N CYNNAL DIGWYDDIADAU A’R RHAI SY’N GYFRIFOL AM FANGREOEDD SY’N GWASANAETHU ALCOHOL – SYDD YN AGOR AR ÔL HANNER NOS A/NEU YN DARPARU CERDDORIAETH – DDARLLEN Y CANLLAWIAU AC YSTYRIED OS YW’N GYMWYS.

I ddarllen datganiad diweddaraf Llywodraeth Cymru, ewch i:

https://llyw.cymru/cymrun-cyflwyno-pas-covid-19-ar-gyfer-digwyddiadau-chlybiau-nos

- Ar gyfer asedau digidol Pàs COVID, ewch i: https://bit.ly/AsedauPasCovidPassAssets

- Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddefnyddio Pàs COVID yn: https://llyw.cymru/defnyddio-pas-covid-y-gig-i-fynd-i-ddigwyddiadau-mawr-chlybiau-nos

- Gellir dod o hyd i wybodaeth am gael Pàs COVID yn: https://llyw.cymru/cael-eich-pas-covid-y-gig

## ARIANNU: Galwad cyllid arloesi busnesau bach a chanolig

Mae prosiect AgorIP yn gwahodd busnesau bach a chanolig i wneud cais am gymorth a chyllid. Gall AgorIP helpu busnesau bach a chanolig i wireddu potensial eu syniadau, eu cynnyrch neu eu hymchwil, ac mae eu harbenigwyr ar gael i helpu i fynd ag IP i’r farchnad a’i wneud yn llwyddiant masnachol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 22 Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.agorip.com/cy/bbachgalw2021/

## LLES: RCS – Rhaglen Gweithio'n Iach | Dod yn Gyflogwr Llesiant 21 Hydref 2021

Mae RCS yn cynnig gwasanaeth cwnsela wedi'i ariannu'n llwyr i helpu unigolion i ymdopi â straen neu berfformio'n fwy effeithiol yn y gwaith. Cynhelir cyflwyniad ar-lein i Raglen Gweithio'n Iach RCS ar 21 Hydref 2021 9:30am-10:30am. I ddarganfod mwy, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3mrhrcV

## AROLWG: Arolwg Ffermwyr a Thirfeddianwyr – Ein Llwybrau Byw

Gofynnir i dirfeddianwyr a ffermwyr, sydd â thir yn gyfagos, neu'n agos, at Lwybr Arfordir Cymru, gwblhau arolwg byr erbyn dydd Gwener 15 Hydref 2021, i helpu i lywio argymhellion prosiect 'Ein Llwybrau Byw', sydd â'r nod o hyrwyddo ac adfer bioamrywiaeth ar hyd y Llwybr. I gymryd rhan, ewch i:

https://bit.ly/3oxoNhR

Gellir gweld fideo rhagarweiniol am y prosiect yma:

https://bit.ly/3DbSBEN

## LLES: Menopos yn y Gweithle

Gall symptomau menopos gael effaith sylweddol ar fywydau gwaith merched. Cyn Diwrnod Menopos y Byd, 18 Hydref 2021, mae BITC (Business in the Community) yn sicrhau bod eu Pecyn Cymorth Menopos ar gael i gyflogwyr. I lawrlwytho'r pecyn cymorth, ewch i:

https://www.bitc.org.uk/toolkit/menopause-in-the-workplace/

# DIGWYDDIAD: FSB ‘Meeting the Challenge in Wales: Becoming a Sustainable Small Business’ 15 Hydref 2021

Bydd y digwyddiad hwn, a gynhelir ar 15 Hydref 2021, 9.00am – 12.00pm, yn archwilio meysydd gweithgaredd allweddol a’r hyn y gall busnesau ei wneud i leihau eu hôl troed carbon. Am fwy o wybodaeth ac i archebu, ewch i:

https://bit.ly/39w9L3d

# DIGWYDDIAD: Cymru Iach ar Waith – Digwyddiad Cymeradwyaeth COVID-19

Dymuna Cymru Iach ar Waith ddathlu cyflogwyr sydd wedi arddangos arloesedd, creadigrwydd ac ymroddiad i lesiant eu staff yn ystod y pandemig COVID-19. Gall cyflogwyr gyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth i’w cyflwyno mewn rhith ddigwyddiad a gynhelir ar ddydd Mercher 8 Rhagfyr 2021. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yw Dydd Gwener 15 Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://freshwater.eventscase.com/cy/HWWCommendationEvent

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru